
efc cymru
cyflogwyr i ofalwyr

# Pecyn Cymorth









# Hyrwyddwyr Gyrfa

## Gofalwyr yn y gweithle

Bydd gofalu am berthynas, partner neu ffrind sâl, hŷn neu anabl yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonom rywbryd yn ein bywydau. Eisoes mae gan 1 o bob 7 unigolyn yng ngweithlu'r DU gyfrifoldebau gofalu a disgwylir i'r gymhareb hon gynyddu wrth i bobl fyw yn hirach ac ymddeol yn hwyrach. Nododd ymchwil ddiweddar a wnaed gan Carers UK fod cynifer â 600 o bobl y dydd yn y DU yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am rywun, yn aml am eu bod yn wynebu argyfwng gofalu heb wybod ble i fynd i gael gwybodaeth a chymorth. Ac eto, mae gofalu yn dal i fod yn fater y mae pobl yn ei chael hi'n anodd ei drafod a chynllunio ar ei gyfer yn y gweithle..

**Pwy sy'n ofalwyr yn y gweithle?**
Mae Cyflogwyr i Ofalwyr yn defnyddio'r diffiniad canlynol i ddisgrifio gofalwyr yn y gweithle: *Cyflogeion â chyfrifoldebau gofalu sy'n cael effaith ar eu bywydau gwaith yw gofalwyr. Mae'r cyflogeion hyn yn gyfrifol am ofalu am berthnasau neu ffrindiau sy'n hŷn, yn anabl neu'n ddifrifol wael na allant ofalu amdanyn nhw eu hunain, a rhoi cymorth iddynt.*

## Pwy yw Hyrwyddwyr y Gweithle?

Hyrwyddwyr y Gweithle yw'r cysylltiad hanfodol rhwng Gofalwyr Cymru a'r cydweithwyr yn eich gweithlu sydd yn cydbwyso gwaith a gofal. Maen nhw'n lledaenu'r gair ac yn codi ymwybyddiaeth am ofalwyr di-dâl drwy hyrwyddo digwyddiadau fel yr Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin neu'r Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Tachwedd. Mae Hyrwyddwyr y Gweithle yn bwysig dros ben hefyd mewn cyfeirio gofalwyr sy'n gweithio at gymorth o fewn y gweithle, fel polisïau Adnoddau Dynol, ac yn helpu i hyrwyddo Gofalwyr Cymru a sefydliadau allanol eraill.

Y sgiliau fydd eu hangen arnoch chi

- Dealltwriaeth o'r gweithle.
- Yn ymwybodol o weithdrefnau a phrotocolau eich swyddfa.
- Y gallu i feddwl yn greadigol.
- Diddordeb mewn gwneud bywyd yn well i ofalwyr.

# Pecyn Cymorth

Does dim angen bod yn arbenigwr - dealltwriaeth o ofalu yw'r cyfan rydych chi ei angen.

Cysylltwch a threfnwch sesiwn Hyrwyddwr Gweithle -- employers@carerswales.org

## Cysylltwch â Chyflogwyr ar gyfer Gofalwyr

**T:** 02920 811370 **E:** employers@carerswales.org

**W:** employersforcarers.org | efcdigital.org